# 10 rheswm da dros chwarae ar y stryd

1. Mae plant angen ac mae ganddynt hawl i chwarae. Mae'n hanfodol ar gyfer eu **datblygiad corfforol, emosiynol a chymdeithasol.**
2. Mae plant angen profi **chwarae'n rhydd**, pan fyddant yn dilyn eu syniadau a'u diddordebau eu hunain.
3. Mae plant yn hoffi chwarae **yn agos i'w cartref** ble nad ydyn nhw angen dibynnu ar oedolyn i fynd â nhw i unman arall.
4. Mae plant angen lle i chwarae'n **egnïol**. Gan amlaf, bydd gerddi mewn trefi a dinasoedd yn rhy fach a fydd llawer o blant ddim yn cael **mynediad annibynnol** i barciau.
5. Mae chwarae ar y stryd yn cynyddu **cydlyniad cymunedol** ac ymdeimlad o **gydgyfrifoldeb** am les a diogelwch plant.
6. Bydd plant yn datblygu **cyfeillgarwch** y tu allan i'r ysgol ac ar draws grwpiau oedran.
7. Trwy ddelio gyda sefyllfaoedd yn annibynnol, gall plant ddysgu **sgiliau cymdeithasol** gwerthfawr.
8. Mae chwarae ar y stryd yn caniatáu **chwarae 'wedi ei led-oruchwylio'** tra bo rhieni'n gyrru ymlaen â'u bywyd bob dydd.
9. Y stryd yw'r 'man cychwyn ar gyfer pob taith'* ac mae chwarae ar y stryd yn gam tuag at fwy o **symudedd annibynnol** – i ymweld â ffrindiau, mynd i'r parc neu i gerdded i'r ysgol.
10. Mae strydoedd yn cyfrif am y mwyafrif o **ofod cyhoeddus** yn ein cymunedau a dylent fod ar gyfer pawb, nid dim ond ceir!

* Tim Gill (2007) *No Fear: Growing up in a risk averse society.*

www.playingout.net
0117 9537167
hello@playingout.net
© Playing Out CIC
2010-2018

www.chwaraecymru.org.uk
020 2048 6050
post@chwaraecymru.org.uk